**Hawdd ei**

# Grŵp Cynghori Gweinidogion ar Anabledd Dysgu




## Nodiadau o'r ail gyfarfod ar 4 Mehefin 2019



## Pobl oedd wedi dod i'r cyfarfod

- Sophie Hinksman – Cyd-Gadeirydd
- Adrian Burke – Community Housing Cymru
- Wayne Crocker – Mencap Cymru
- Lynne Evans – Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
- Christine Griffiths – Pwyllgor Ymgynghorol Therapïau Cymru
- Julian Hallett – Cymdeithas Syndrom Down
- Edwin Jones – Cymuned Ymarfer Ymddygiad Heriol
- Dermot McChrystal – Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg
- Michelle Martin – Fforwm Gofal Cymru
- Ruth Northway – Prifysgol De Morgannwg
- Joe Powell – Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
- Zoe Richards – Anabledd Dysgu Cymru
- Jane Rodgers – Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan

- Hayley Tarrant – Pwyllgor Nyrsio a Bydwreigiaeth Cymru
- Oliver Townsend – Cymorth Cymru
- Michelle Williams – Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
- Sharon Williams – Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Pauline Young – Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan

**Eraill:**

- Tracey Drew – yn cefnogi Sophie
- Celia Lewis – yn cefnogi Michelle
- Dawn Price – yn cefnogi Lynne
- Louise Barry – wedi dod ar ran Suzanne Clifton
- Emma Curtis – Swyddfa Comisiynydd Plant
- Julie Heal – wedi dod gyda Jane Rodgers
- Emma McDonald – wedi dod ar ran Emma Mulinder
- Professor Meena Upadhyahya – Prifysgol Caerdydd
- Edward Oloidi – wedi dod gyda Ruth Northway
- Wendy Parry – wedi dod gyda Jane Rodgers

**Swyddogion:**

- Hazel Powell – Swyddfa Prif Swyddog Nyrsio
- Karen Eveleigh – Gwella Bywydau Anabledd Dysgu
- Natalie Hughes-Owens – Gwella Bywydau Anabledd Dysgu
- Alyson Collins – Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio

**Pobl oedd wedi dod i siarad am bethau ar y rhaglen:**

- Dan Jones – Cyfarwyddiaeth Tai
- Jon Williams – Cyfarwyddiaeth Iechyd



## Pobl oedd wedi methu dod

- Raghu Baburaj
- Rebecca Cicero
- Suzanne Clifton
- Emma Mulinder
- Jason O'Brien


## 1. Croeso a Chyflwyniad



Fe wnaeth Karen ddweud y byddai hi yn helpu Sophie i arwain y cyfarfod.  Efallai y bydd yr Athro Meena Upadhyaya yn helpu yn y dyfodol.



Fe wnaeth Sophie groesawu pawb. Fe wnaeth hi ofyn i bobl ddweud eu henwau nhw ac i bwy roedden nhw'n gweithio.




Fe wnaeth Karen ddweud bod Claire Hough wedi newid swydd. Roedd Claire wedi helpu i ddechrau'r Rhagen Gwella Bywydau. Fe wnaethon ni ddiolch i Claire am ei holl waith caled.



Fe wnaeth Karen ddweud bod Natalie Hughes-Owen wedi ymuno â'r tîm Gwella Bywydau. Fe fyddan nhw'n cael rhywun i wneud gwaith Claire.




Fe wnaeth Sophie ddarllen y rheolau ar gyfer ein cyfarfodydd. Ac fe wnaeth hi ofyn i bawb wrando a pharchu ei gilydd.




Fe wnaeth hi hefyd siarad am reolau'r **Grŵp Rhaglen Anabledd Dysgu**.



**Gweithredu**

**Alyson** yn anfon rheolau'r **Grŵp Rhaglen Anabledd Dysgu** atoch chi ac yn gofyn beth rydych chi'n feddwl.

## 2. Beth oedd wedi digwydd yn y cyfarfod diwethaf



Mae llawer o'r aelodau eisiau amser yn ein cyfarfodydd ni i siarad am bethau sydd ddim ar yr agenda. Felly os oes rhywbeth pwysig yn digwydd rydyn ni'n gallu siarad am hynny.




Er enghraifft, y rhaglen deledu Panorama am gamdriniaeth mewn ysbyty. Fe fyddwn ni'n galw'r rhan yma o'r cyfarfod yn **Unrhyw Fater Arall**.



Mae aelodau hefyd eisiau gwybod am ddigwyddiadau. Maen nhw eisiau cael yr wybodaeth yma mewn newyddlen neu ar e-bost.



**Gweithredu**

Fe wnaethon ni gytuno â siarad am y rhaglen Panorama ar ddiwedd y cyfarfod.

## 3. Y Rhaglen Gwella Bywydau




Cyn y cyfarfod roeddech chi wedi cael adroddiad am y **Rhaglen Gwella Bywydau.** Dyma'r ail adroddiad am y rhaglen.

Fe wnaeth Karen siarad am y prif bethau yn yr adroddiad, yn cynnwys:



**Gwneud iechyd yn deg i bawb**

Mae byrddau iechyd yn cael rhagor o arian i wneud eu timau anabledd dysgu yn well. Ac i wneud **nyrsus cyswllt ysbyty** yn well.

**Canolfan Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod**



Mae **Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod** yn meddwl pethau drwg sydd yn digwydd i chi pan rydych chi'n ifanc. Er enghraifft, os ydy eich rhieni yn cymryd cyffuriau neu os ydych chi'n cael eich.cam-drin. Rydyn ni'n dweud **ACEs**.



Roedd y **Ganolfan ACE** wedi cael cyfarfod gyda'r tîm **Gwella Bywydau**. Fe wnaethon nhw siarad am sut y mae'r **Ganolfan ACE** yn gallu helpu gyda gwaith **Gwella Bywydau**.




Fe wnaethon ni siarad am y digwyddiad **Credu ym Mhob Plentyn** oedd wedi digwydd ym mis Mawrth.



Ac am sut y dylai pobl sydd yn gweithio mewn ysgolion ddelio â phroblemau heb ddefnyddio **arferion cyfyngol**.



**Arferion cyfyngol** ydy pan mae pobl yn ceisio rheoli eich ymddygiad drwy eich stopio rhag gwneud pethau. Mae'n gallu meddwl eich dal i lawr. Neu eich rhoi mewn ystafell ar eich pen eich hun.




Fe wnaeth Karen ddweud bod y **Grŵp Gorchwyl a Gorffen** ar arferion cyfyngol wedi trefnu cyfarfod ar 15 Gorffennaf.



**Gweithredu**

Rydych chi'n gallu rhoi eich syniadau am leihau arferion cyfyngol i Dermot McChrystal. Fe fydd e'n rhannu syniadau â **Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg**.



Fe fydd Karen yn ychwanegu siarad am beth mae **Gwella Bywydau** yn ei ddweud am iechyd at agenda ein cyfarfod nesaf.



Fe wnaeth Dan Jones ddweud wrthyn ni am **Rhaglen Cronfa Cyfalaf Gofal Integredig**. Mae'r rhaglen yma yn rhoi arian i:

- prosiectau gwasanaethau cymdeithasol
- prosiectau iechyd
- prosiectau tai.



Fe wnaeth Dan ddweud bod rhagor o bobl nawr yn gwybod pa mor bwysig ydy tai da i iechyd a llesiant pobl.



Mae'r rhaglen yn rhoi £105 miliwn dros y 3 blynedd nesaf. Fe fydd y rhan fwyaf o'r arian yma yn mynd i:



- pobl gydag anabledd dysgu
- gofalwyr
- pobl hŷn
- plant sydd angen cefnogaeth ychwanegol.



Fe fydd **Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol** yn gwneud cais am yr arian yma. Maen nhw'n gallu defnyddio gwybodaeth o'u **hasesiadau poblogaeth** i'w helpu nhw er mwyn penderfynu sut i ddefnyddio'r arian.



Fe wnaethon ni siarad am:

- sut mae'r arian yma yn cael ei wario
- tai newydd i bobl gydag anableddau dysgu
- a pwy sydd yn gwneud yn siŵr bod y prosiectau yn rhedeg yn iawn.



**Gweithredu**

- **Alyson** yn anfon dolenni inni i'r **asesiadau poblogaeth** er mwyn inni allu eu darllen.



- **Alyson** hefyd yn gofyn i bobl o **Raglen Cronfa Cyfalaf Gofal Integredig** i ddod i'n cyfarfod ni ym mis Medi.

  Fe fyddwn yn gofyn iddyn nhw roi cyflwyniad. Ac fe fyddwn ni'n cael cyfle i siarad am unrhyw faterion.

## 4. Gwasanaethau pontio



Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ysgrifennu papur am eu polisïau i helpu pobl ifanc i bontio i wasanaethau oedolion. Roedd y papur yma wedi cael ei anfon aton ni cyn y cyfarfod.



**Pontio** ydy newid o fod yn blentyn i fod yn oedolyn. Yn aml mae'n meddwl newid o wasanaethau cymdeithasol plant i wasanaethau cymdeithasol oedolion.



Fe wnaeth Jon Williams siarad am ddarn newydd o waith i helpu pobl ifanc i bontio i wasanaethau iechyd oedolion.



Fe ddylai'r gwaith yma wneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn cael y gwasanaethau iechyd cywir ar yr adeg cywir.




Y cyfarfod cyntaf am hyn fydd 17 Mehefin.



Fe wnaeth Jon ddweud y byddan nhw'n stopio defnyddio'r gair **pontio**. Oherwydd mae'n cael ei ddefnyddio yn aml i siarad am bobl yn newid eu rhyw. Mae hynny'n gallu bod yn ddryslyd. Yn lle hynny fe fyddan nhw'n defnyddio'r gair **trosglwyddo**.



Doedd y rhan fwyaf o'r aelodau ddim yn hapus gyda'r gair **trosglwyddo**. Oherwydd mae'n swnio fel bod dewisiadau person ifanc yn cael eu rhoi i weithwyr proffesiynol.



Roeddwn nhw'n meddwl bod pobl yn deall bod pontio yn meddwl y daith o fywyd plentyn i fywyd oedolyn.



Fe wnaeth Jane Rodgers, Julie Heal a Wendy Parry siarad am sut mae pontio yn digwydd yn Sir Fynwy. Fe wnaethon nhw siarad am beth sydd yn gweithio'n dda a beth sydd ddim.



Fe wnaethon nhw ddweud bod pontio yn amser caled ac ofnus i deuluoedd. Roedd gan rai teuluoedd ofn pethau fel:

- Colli cefnogaeth



- Gorfod dechrau perthnasoedd newydd gyda gweithwyr cefnogi newydd




- Sylweddoli bod eu plenty nhw'n dod yn oedolyn. A bod y gyfraith yn wahanol i oedolion.




- Sylweddoli bod y ffordd o benderfynu pwy sydd yn cael **Gofal Iechyd Parhaus** yn wahanol iawn i blant ac oedolion.





Fe wnaeth yr aelodau ddweud bod pontio yn gallu bod yn well os ydy gwahanol wasanaethau yn rhoi eu harian nhw gyda'i gilydd.




Fe wnaethon nhw ddweud bod angen i wasanaethau weithio gyda'i gilydd i wneud i hyn ddigwydd. A bod angen cynllun clir.




Roedd aelodau hefyd yn meddwl y dylai pobl sydd yn cael **Gofal Iechyd Parhaus** gael **taliadau uniongyrchol**.




Fe wnaeth Emma Curtis ddweud y dylai aelodau edrych ar yr argymhellion yn yr adroddiad **'Peidiwch â dal yn ôl'**. Dyma adroddiad am bontio. Mae wedi cael ei ysgrifennu gan **Gomisiynydd Plant Cymru.**

| | |
|---|---|
|  | **Gweithredu**<br><br>• **Alyson** yn anfon cylch gorchwyl y **Bwrdd Prosiect** inni. |
|  | • **Alyson** yn anfon dolen inni i'r ymgynghoriadau ar **Ofal Iechyd Parhaus**. |
|  | • Fe fydd Karen yn codi mater **Gofal Iechyd Parhaus** a **thaliadau uniongyrchol** gyda swyddogion. |
|  | • **Alyson** yn anfon ffordd newydd Gwent o weithio ar gyfer pontio. |
|  | • Fe fydd Jon Williams yn dweud wrth y **Bwrdd Prosiect** am ein barn ni am y term **trosglwyddo**. |

## 5. Gwaith ymchwil




Cyn y cyfarfod fe wnaethon ni anfon cyflwyniad atoch chi am ymchwil anabledd dysgu yng Nghymru. Y prif ymchwilydd ar y gwaith yma ydy Edward Oloidi.



Fe wnaeth e siarad am sut mae e'n gwneud yr ymchwil. Ac fe wnaeth e roi enghreifftiau o'r cwestiynau roedd e wedi eu gofyn.

Fe wnaethon ni ddysgu sut roedd y **Rhwydwaith Anabledd Dysgu ac Awtistiaeth** wedi helpu gyda'r ymchwil.



Roedden ni'n meddwl os oedd y grŵp yn gallu dechrau eto. Neu os ydyn ni'n gallu cadw'r ymchwil i gyd mewn un lle.

Fe wnaeth Karen ddweud y byddai'r grŵp ymchwil yn edrych ar ganlyniadau ymchwil Oloidi.


Fe wnaeth Karen ddweud y byddai hi'n cyfarfod:

- **Swyddfa Ymchwil a Datblygiad ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru.**
- **Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi**.

Rhannau o Lywodraeth Cymru sydd yn gwneud ymchwil ydy'r rhain.



Fe wnaeth yr Athro Upadhyaya ddweud bod angen gwneud rhagor o waith i weld beth sydd yn achosi anableddau dysgu. Fe wnaeth hi ddweud bod angen inni wybod hyn er mwyn ateb anghenion pobl yn well.



Fe wnaeth Karen ddweud bod y **rhaglen Gwella Bywydau Anabledd Dysgu** wedi dechrau oherwydd bod angen i wasanaethau fod yn well i bobl gydag anableddau dysgu.



**Gweithredu**

- Fe fyddwn ni'n dweud wrth Edward am unrhyw ymchwil anabledd dysgu rydyn ni'n gwybod amdano.

## 6. Ymchwiliad annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol



Roedd Sanjay Vedi i fod i siarad am gamdriniaeth. Ond roedd e wedi methu dod i'r cyfarfod. Fe fydd e'n dod i gyfarfod ar amser arall.



**Gweithredu**

- **Alyson** yn cynllunio i'r grŵp siarad am gam-drin plant yn rhywiol mewn cyfarfod arall.

## 7. Unrhyw Fater Arall




Roeddwn ni'n poeni'n fawr iawn am y rhaglen Panorama**: Undercover Hospital Abuse Scandal**. Roedd y rhaglen yma am gamdriniaeth yn Ysbyty Whorlton Hall .



Roedden ni eisiau gwybod sut yr ydyn ni'n gallu gwneud yn siŵr nad ydy'r math yma o gamdriniaeth yn digwydd yng Nghymru. Neu i bobl Cymru mewn ysbytai y tu allan i Gymru.



Fe wnaeth Hazel Powell ddweud bod darn o waith yn cael ei wneud. Fe fydd yn edrych ar leoliadau gofal y tu allan i Gymru a gweld os ydyn nhw'n ateb anghenion pobl.



Fe wnaeth Joe Powell ddweud bod llawer mathau o gamdriniaeth. Weithiau mae'n gorfforol ac weithiau mae'n agweddau pobl. Fe wnaeth ddweud bod angen inni newid ein diwylliant i wneud yn siŵr ein bod ni'n trin pobl gydag anableddau dysgu â pharch.



**Gweithredu**

- Fe fyddwn ni'n ysgrifennu datganiad i ateb rhaglen Panorama.

## 8. Cyfarfodydd yn y dyfodol




**Dydd Mawrth 10 Medi 2019**
11am to 3pm




**Dydd Mercher 4 Rhagfyr 2019**
9.45am to 3pm

Fe fydd y cyfarfod mis Rhagfyr am 9.45am. Fe fydd y Dirprwy Weinidog yn dod i'r cyfarfod.

## 9. Cyfarfod nesaf




**Dydd Mawrth 10 Medi 2019**